CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

## Grantiau Bach

# Effaith Fawr



# Cynnwys


Cyflwyniad

Ein cyrhaeddiad rhanbarthol trwy grantiau bach

Syniadau bach - gwahaniaeth mawr

Sut rydym yn dafarnu grantiau bach

Casgliadau


**Mae hon yn ddogfen ryngweithiol**

Llywiwcg drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r dolenni yn y tabl cynnwys a'r botymau ar waelod pob tudalen



Green Door




# Cyflwyniad

# Grantiau bach - effaith fawr

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf ar gyfer gweithgarwch cymunedol yn y DU, ac mae'r mwyafrif helaeth o'r prosiectau rydym yn eu cefnogi mewn gwirionedd yn derbyn grantiau bach.

Mae **84%** o'n grantiau gwerth **llai na £10,000** ac rydym yn dyfarnu dros **over 12,000** ohonynt y flwyddyn, gan gyrraedd pop etholaeth a chymuned yn y DU, ac mewn dros **90%** o holl wardiau'r DU.

Mae cyrchu ein hariannu grant bach yn hawdd ac yn hwylus ac mae'n cael arian allan o'r drws i gymunedau yn gyflym. Gwyddom mai ein grantiau bach yw'r ffordd fwyaf effeithiol sydd gennym o gefnogi'r sefydliadau lleol a'r bobl hynny sy'n asgwrn cefn i'w cymunedau.

Grantiau bach yw'r hyn sy'n cadw adeiladau a mannau cymunedol ar agor. Maen nhw'n cadw'r to yn sefydlog, yn trwsio'r boeler, ac yn helpu'r goleuadau i aros ymlaen. Rydym wedi defnyddio cronfeydd bach o arian i wneud yn siŵr bod gan bobl ifanc fynediad i feysydd chwarae, i ganiatáu i siopau cymunedol ffynnu ac i roi lle cynnes a chroesawgar i bobl unig a hŷn gyfarfod. Ac rydym wedi defnyddio grantiau bach i ddod â chymunedau ynghyd, yn fwyaf diweddar, i ddathlu Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines.

Gallwn hefyd ddangos mai grantiau bach yw'r llwyfan ariannu mwyaf effeithiol i ysgogi gwirfoddolwyr cymunedol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, a'r unig beth a wnaed gan ein hystod o ariannu grant bach yn ystod y pandemig oedd atgyfnerthu hyn.



Clwb Paffio Monkstwon


Shantona

# Targedu'r ardaloedd â'r angen mwyaf

gymunedau ac ardaloedd na all grantiau mawr eu cyrraedd yn aml. Mae ein dull ariannu ymatebol syml yn rhoi pŵer i feysydd sy'n cael eu gadael ar ôl sy'n teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u tan-ariannu. Mae ein gwaith parhaus ar sut i gyrraedd mannau oer ariannu ac ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd hefyd yn amlygu hyn. Mae ein dyfarniadau i **ardaloedd blaenoriaeth 1 Cronfa Ffyniant Bro'r Llywodraeth** wedi cynyddu o **42% to 50%** yn y tair blynedd diwethaf. Mae'r ardaloedd hyn yn cynrychioli traean poblogaeth y DU.

**Mae grantiau bach yn rhan hanfodol o'n hamrediad ariannu**, a dylent fod yn amrediad unrhyw ddull ariannu. Maen nhw'n dangos mai nad y swm o arian sy'n trwsio problem bob tro, ond sut mae'n cyrraedd y rhai sydd ei angen.

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ymlaen at rannu gyda chi ystent effaith ein grantiau bach mewn gwirionedd a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu fel ariannwr cymunedol mwyaf y genedl gyda degawdau o brofiad o arian grantiau bach.

# Ein heffaith

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn uniongyrchol yn cefnogi cyfanswm o tua **5.2 miliwn o fuddiolwyr unigryw y flwyddyn trwy eu deiliaid grant, gyda 3.1 miliwn ohonynt wedi buddio o grantiau bach.**

Yn y 12 mis diwethaf rydym wedi dyfarnu dros 12,000 o grantiau bach, cyfanswm o

**£101m**

Mae hyn yn cyfateb i ychydig llai nag **un pumed** o gyfanswm ein hariannu.

**60%**

o'n dyfarniadau'n mynd i sefydliadau gyda throsiant o llai na **£100,000**. Maint ein dyfarniadau ar gyfartaledd yw **£8,100**.

**40%**

Y llynedd, bu dros **40%** o'r sefydliadau a ariannwyd gennym dderbyn ein grantiau am y tro cyntaf.


Mae tri thema allweddl wedi dod i'r amlwg o geisiadau grantiau bach:

1. **Iechyd a Llesiant**
2. **Cefnogaeth Gymunedol**
3. **Addysg a Dysgu**



Coast

# Ein cyrhaeddiad rhanbarthol trwy grantiau bach



**Yr Alban**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£55m**

**Gogledd Ddwyrain Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£29m**

**Gogledd Iwerddon**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£30m**

**Dwyrain Canolbarth Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£38m**

**Swyff Efrog a Humber**
Cyfanswm a ddyfarnwyd::
**£58m**

**Dwyrain Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£35m**

**Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£57m**

**Gogledd Orllewin Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£79m**

**Llundaiun**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£68m**

**Cymru**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£29m**

**De Orllewin Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£46m**

**De Ddwyrain Lloegr**
Cyfanswm a ddyfarnwyd:
**£48m**

# Ariannu cymunedau anodd eu cyrraedd

Mae'r llywodraeth yn gofyn yn aml i ni sut rydym yn sicrhau bod ein hariannu yn cyrraedd ardaloedd sydd â lefelau isel o geisiadau ond lefelau uchel o angen. Yn aml, mae'r rhain yn gymunedau sydd â seilwaith cymdeithasol isel. Mae ein hymateb yn gynnil ac yn cael ei arwain gan anghenion y gymuned benodol honno, ond yn ddi-ffael mae'n ymwneud â grantiau bach.

Mae'r 'mannau oer' hyn yn aml yn feysydd nad oes ganddynt sefydliad angori neu rwydwaith elusennol ynddynt. Fodd bynnag, mae ganddynt grwpiau cymunedol sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau lleol, a thrwy ein cyllid grant bach ymatebol sy'n hawdd ei ddefnyddio gallant gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gall symiau bach gael effaith fawr a thrwy ein hariannu rydym yn galluogi ac yn cefnogi sefydliadau ar lawr gwlad sy'n adnabod eu cymuned ac sydd ag ymddiriedaeth yn eu cymuned. Rydym wedi ariannu prosiectau ym mhob ardal Towns Fund[1] yn Lloegr ac mewn 99% o gymunedau sydd wedi cael eu 'gadael ar ôl' yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein hymrwymiad i weithio'n lleol ac yn rhanbarthol wedi ein hymgorffori mewn cymunedau lleol, **gan ein cysylltu â mwy o sefydliadau llawr gwlad.**

[1]Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi yn yr ardaloedd hyn fel rhan o gynllun ffyniant broydd



Grŵp Menter Portglenone



# Syniadau bach - gwahaniaeth mawr

Connect

## Cyflogaeth

Yn y pen draw, mae sefydliadau ariannu sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a chyflogadwyedd yn helpu i wella bywydau pobl ac yn cefnogi cymunedau i ffynnu. Mae ein grantiau'n cefnogi pobl ar bob cam o'u taith cyflogaeth, o ysgrifennu CV da a cheisiadau am swyddi i baratoi ar gyfer cyfweliadau, tra hefyd yn mynd i'r afael â rhwystrau mwy cymhleth, megis anghenion iechyd meddwl a chorfforol, hyd at nodi bylchau mewn sgiliau.

- Mae'r Gronfa wedi buddsoddi £361 miliwn mewn prosiectau cyflogaeth a menter dros y tair blynedd diwethaf..
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, dyfarnwyd bron i draean o'r ariannu i brosiectau sy'n cefnogi cyflogaeth a menter.
- Y budd a amcangyfrifir i'r Llywodraeth a'r economi ehangach yw £2.43 am bob £1 a fuddsoddir, gan godi i £6.43 mewn gwerth cymdeithasol am bob £1 a fuddsoddir. Mewn termau real, ymgysylltodd ein rhaglen Building Better Opportunities â 127,067 a chyfanswm o 21,161 o bobl yn symud i gyflogaeth a 18,594 wedi symud i hyfforddiant neu addysg.

**Stori prosiect**

## Cyflogaeth

### Prosiect Cyflogadwyedd Southwick

**Grant:** Arian i Bawb

**Lleoliad:** Southwick, Sunderland

**Dyfarnwyd:** £9,900

Mae Prosiect Cyflogadwyedd Southwick wedi'i leoli yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn genedlaethol ar gyfer diweithdra ymhlith pobl ifanc. Dyfarnwyd grant o £9,900 i'r prosiect ym mis Rhagfyr 2018 i'w helpu i gefnogi pobl o'r ardal leol i ddod o hyd i waith, gan gynnig dosbarthiadau, cymorth un-i-un, sgiliau ysgrifennu CV a chyfweliad. Ariannodd ein grant ddau weithiwr cymorth ac yn ystod y flwyddyn ganlynol, bu 44 o bobl fynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb neu o bell. Darparwyd 58 awr o hyfforddiant ystafell ddosbarth a 26 awr o gymorth personol. Daeth 25 o bobl o hyd i waith o ganlyniad, rhai yn yr ardal leol, tra symudodd eraill i ddinasoedd a gwledydd eraill i gychwyn cyflogaeth newydd.



Prosiect Ieuenctid Lagmore

# Pobl ifanc

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol oedd yr ariannwr anstatudol mwyaf ar gyfer pobl ifanc yn y DU gyda thua 28% o holl arian y sector ieuenctid anllywodraethol.

Nod ein hariannu yw helpu pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gan eu cefnogi i fyw bywydau iach, boddhaus a chyfoethogi eu profiadau, waeth beth fo'u hamgylchiadau. Mae ein hariannu yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael mynediad i gyfleusterau celfyddydol, chwaraeon a diwylliant yn ogystal â darparu mannau cymunedol.

Rydyn ni'n rhoi pobl ifanc wrth galon ein prosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu. Mae ein timau Llais Ieuenctid yn dod ag oedolion ifanc o brosiectau rydym wedi eu hariannu at ei gilydd. Maent yn helpu i lunio ein gwaith ac maent yn llysgenhadon gwerthfawr ar gyfer eu cymunedau a sefydliadau ieuenctid.



Platfform

**Yn y tair blynedd diwethaf, rydym hefyd wedi ariannu 1104 grants gwerth cyfanswm o**

**£157m**

**gyda ffocws ar gael pobl 16-24 oed i mewn i gyflogaeth.**

Mae'r Gronfa wedi buddsoddi £861m dros y tair blynedd diwethaf mewn prosiectau ar gyfer plant a pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys £286m i hyrwyddo gwirfoddoli a gweithredu cymunedol, £176m mewn celfyddydau dan arweiniad y gymuned a £119m ar gyfer chwaraeon dan arweiniad y gymuned.

Stori prosiect

# Pobl ifanc

## Sovereign House GH

**Grant:** Arian i Bawb

**Lleoliad:** DU

**Dyfarnwyd:** £10,000

Mae Sovereign House GH yn elusen yn y DU, sy'n gweithredu yn Salford a Ghana, sy'n grymuso plant difreintiedig i ennill sgiliau digidol a bywyd i wneud y gorau o'u llawn botensial. Yn y DU, maent yn rhedeg rhaglen dysgu cyfrifiadurol ar gyfer plant saith i 15 oed, gyda'r nod o adeiladu hyder y plant, gwella eu sgiliau cyfrifiadurol, gan roi cymhwysedd uwch iddynt a sylfaen ar gyfer y farchnad swyddi.

Maent hefyd yn gwahodd siaradwyr gwadd i siarad â'r plant am ddyheadau a nodau ar gyfer y dyfodol ac anogir y plant i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

Mae'r elusen wedi ennill gwobrau am ei ymagwedd gynhwysol a'i gallu i gefnogi plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngbersonol yn ogystal â sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol hollbwysig. Mae'r plant yn dysgu gwahanol gysyniadau o feddalwedd rhaglennu, diogelwch rhyngrwyd, a chaledwedd ymhlith rhaglenni TG eraill.



Mae Irene Lockett, Sylfaenydd a Phrif Weithredwr yn credu bod Arian i Bawb yn 'fach ond nerthol':

"Roedd Arian i Bawb yn sbardun gwych i'n prosiect. Rhoddodd hwb mawr ei angen i ni gychwyn arni."

Mae **Sovereign House GH** yn elusen yn y DU, sy'n gweithredu yn Salford a Ghana, sy'n grymuso plant difreintiedig i ennill sgiliau digidol a bywyd i wneud y gorau o'u llawn botensial.

## Sero net a newid yn yr hinsawdd

Credwn nad prosiectau mawr yn unig sydd eu hangen o ran cyrraedd sero net

Ochr yn ochr â'n Cronfa Gweithredu Hinsawdd (CAF), ymrwymiad o £100m i gefnogi prosiectau gweithredu hinsawdd a arweinir gan y gymuned ledled y DU dros y blynyddoedd nesaf, rydym wedi bod yn defnyddio grantiau bach i helpu i wneud gwahaniaeth yn y maes hanfodol hwn.

Yng Nghymru, datblygwyd cynllun peilot atodol Gweithred Hinsawdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ysbrydoli gweithredu amgylcheddol gan amrywiaeth o grwpiau cymunedol sydd eisoes yn derbyn ariannu o'n grantiau.

Talodd y cronfeydd bach hyn o arian ychwanegol am effeithlonrwydd ynni a dŵr ar gyfer 23 o adeiladau, gan gynnwys paneli solar, inswleiddio, boeleri, goleuadau, thermostatau, carpedi a ffenestri. Helpodd hefyd i ariannu pum gardd ac ardal natur, pum perllan, dau bwynt gwefru trydan a dau randir.

Roedd yr effaith gynnar gychwynnol yn sylweddol. Gyda swm cymharol fach o ariannu, roedd sefydliadau'n gallu lleihau'r defnydd o ynni a dŵr, arbed arian a gwella awyrgylch ac ymddangosiad cyffredinol adeiladau.



Ysgol Longstone

Ar gyfer 12 o'r prosiectau adeiladau a gefnogir gan Gymunedau Ctnaliadwy Cymru, amcangyfrufur y bydd **236,049 o oriau cilowat yn cael eu harbed bob blwyddyn**, sy'c cyfateb i'r carbon a geir trwy **blannu 2,760 eginblanhigyn coden a dyfir am 10 mlynedd.**

**Stori prosiect**

### Sero net a newid yn yr hinsawdd

**Gardd Tyfu a Bwyta**

**Grant:** Arian i Bawb

**Lleoliad:** Caerffili, Cymru

**Dyfarnwyd:** £9,020

Dyfarnwyd £9,020 i Ganolfan Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned i ddarparu gweithgareddau awyr agored o bellter cymdeithasol i rieni a phlant. Ariannodd yr arian offer garddio, matiau chwarae, hadau, planhigion a phlanwyr. Gyda'r prosiect yn sôn am breswylwyr yn mynd â'r syniadau adref a dechrau eu gerddi eu hunain.

# Unigrwydd ac arwahanrwydd

## Local Connections Fund

Fe wnaeth y gronfa £4 miliwn hon, a ddosbarthwyd gyda'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2021, helpu elusennau a grwpiau cymunedol ledled Lloegr i feithrin cysylltiadau ar draws eu cymunedau i leihau unigrwydd. Cynigiodd ficro-grantiau rhwng £300 a £2,500 i sefydliadau lleol ag incwm blynyddol o £50,000 neu lai. Ar ben hynny, bu'r ariannu hwn helpu i ddod â phobl yn y gymuned ynghyd trwy greu lleoedd iddynt gysylltu, mynd allan i unigolion, a chreu rhwydwaith cefnogi yn y gymuned.


Fferm Riwbob

Roedd y micrograntiau hyn yn galluogi grwpiau i brynu offer i'w fenthyg i bobl neu i wneud newidiadau buddiol i leoliadau neu erddi cymunedol. Drwy gyfuno swm cymharol fach o ariannu gyda gwirfoddolwyr, rydym wedi gweld grwpiau bach yn gallu addasu'n gyflym ac yn hyblyg, a gall wir wneud gwahaniaeth enfawr i gymunedau. Dyfarnwyd cyfanswm o bron i 1,700 o grantiau drwy Local Connections Fund.



Mae mewnwelediad gan dîm Local Connections Fund yn amcangyfrif i **820,000 o bobl** fuddio o'r rownd gyntaf a grantiau, gyda chost o **£2.24 y person.**

**Stori prosiect**

### Unigrwydd ac arwahanrwydd

**b:Friend**

**Grant:** Arian i Bawb

**Lleoliad:** Doncaster

**Dyfarnwyd:** £9,900

Yn Doncaster, mae b:Friend wedi paru dros 70 o gyfeillion gwirfoddol gyda chymydog hŷn sy'n ynysig yn gymdeithasol. Fel rydym wedi gweld ar draws llawer o'n prosiectau, mae'r buddion yn mynd y ddwy ffordd.

**Roedd Kath wedi ei llethu gan alar ar ôl colli ei gŵr:**

**"Mae b:Friend wedi achub fy mywyd. Cyn i fy ngwirfoddolwr Nicola ddod, doedd gen i ddim ymwelwyr o gwbl. Roeddwn i wir yn teimlo fy mod i eisiau dod â'r cyfan i ben - dydw i erioed wedi bod ar fy mhen fy hun o'r blaen ac roedd yn anodd iawn."**

# Dathlu, balchder a pherthyn

Rydym yn ariannu cymunedau a phobl i ddod ynghyd a dathlu digwyddiadau a cherrig milltir lleol a chenedlaethol, boed hynny'n Ginio Mawr y pentref neu'n barti stryd Jiwbilî.

Mewn blwyddyn arferol, mae 42% o ddeiliaid grantiau yn dweud wrthym fod gan bobl fwy o falchder a pherthyn yn lleol oherwydd y gwasanaethau neu'r gweithgareddau rydym yn eu hariannu i'w darparu.

Ar gyfer rhai rhaglenni rydym wedi datblygu micrograntiau – o £250 i £1,000 – i'w gwneud hi'n haws fyth i gymunedau gael mynediad at ariannu i'w dwyn ynghyd.



Digwyddiad Jiwbilî yng Nghanolfan Glencorse

Stori prosiect

## Dathlu, balchder a pherthyn

### Penwythnos Cymunedol y Maer

Fel rhan o fenter ar y cyd ag Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Maer Gorllewin Canolbarth Lloegr Andy Street, fe gynigom grantiau o hyd at £500 i gefnogi digwyddiadau dathlu cymunedol. Dyfarnwyd cyfanswm o £55,000 i 124 o wahanol grwpiau ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Yn nigwyddiad 2019, doedd 54% o grwpiau heb dderbyn ein hariannu o'r blaen, ond bu'r arian hwn yn gatalydd, gyda 96% yn bwriadu trefnu digwyddiadau ychwanegol a 72% yn fwy tebygol o wneud cais i ni am ariannu yn y dyfodol.

Dafarnwyd £85,000 o arian y Loteri Genedlaethol i **170 o ddigwyddiadau yn 2019**, o gymharu â £60,000 a **120 ymgynulliad yn ei flwyddyn gyntaf yn 2018,** gyda hyn yn annog pobl i fynd allan, ymgysylltu yn eu cymunedau lleol a chynyddu rhyngweithio cymdeithasol.



Parti Mawr Bromford

## Stori prosiect

# Dathlu, balchder a pherthyn

### Ageing Better

Mae Ageing Better yn rhaglen chwe blynedd a ddechreuodd yn 2015, a sefydlwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r rhaglen yn datblygu ffyrdd creadigol i bobl 50+ oed gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol, a brwydro yn erbyn arwahanrwydd ac unigrwydd cymdeithasol

Canfuom fod microariannu yn ddull pwerus, gan alluogi ein partneriaethau i gyrraedd cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Roedd hefyd yn rhoi pobl 50+ oed ar y blaen i ddatblygu'r prosiectau a'r asedau sydd bwysicaf iddyn nhw.

Oherwydd bod aelodau'r gymuned yn cymryd mwy o ran, gall prosiectau a ariennir drwy ficroariannu brofi syniadau a llywio penderfyniadau polisi. Mae'r dull hwn yn ail-lunio gwasanaethau cymunedol lleol, yn datblygu hyder a gallu pobl i redeg eu gweithgareddau eu hunain, ac yn hybu gallu ar gyfer newid ystyrlon a chynaliadwy.



Clwb Cinio Y Groes

Gwnaed **1,976 dyfarniad** mewn 4 blynedd (o 2015 - diwedd Awst 2019)

Mae mwyafrif y prosiectau microariannu yn rhedeg am **2 fis i 1 flynedd**

**Dafarnwyd £4.4 miliwn i brosiectau microariannu.**

## Stori prosiect

# Dathlu, balchder a pherthyn

### The Allestree Club

**Grant:** Arian i Bawb

**Lleoliad:** Allestree, Derby

**Awarded:** £10,000 ar gyfer boeler a ffenestri a £800 ar gyfer digwyddiad dwans

Mae gwella cynhesrwydd a chysur lleoliad nid yn unig yn gallu ei wneud yn fwy deniadol a chyfeillgar i bobl leol, ond gall hefyd leihau biliau ynni a'u hôl troed carbon. Yn 2018, adnewyddodd y Lleng Brydeinig Frenhinol y ffenestri a'r boeler yng Nghlwb Allestree yn Derby, gan leihau costau rhedeg 45% a sicrhau ei fod yn lle i gyn-filwyr lleol a'u ffrindiau a'u teuluoedd ddod ynghyd.

Fe wnaethom hefyd ddarparu grant o £800 ar gyfer noson ddawns a cherddoriaeth untro lle gallai aelodau hŷn gyfarfod a chlywed adloniant o'r 1940au.

Stori prosiect

## Dathlu, balchder a pherthyn

### Y Cinio Mawr

Gall y Cinio Mawr fod yn unrhyw beth o ymgynnulliad bach mewn gardd, parc neu dramwyfa, i barti mwy gyda byrddau trestl i lawr canol stryd.

Mae rhywfaint o'n hariannu yn genedlaethol, megis y grant pedair blynedd o £8.6 miliwn y dyfarnwyd gennym i'r Cinio Mawr, a welodd 5.6 miliwn o bobl yn mynychu dros 90,000 o ddigwyddiadau Cinio Mawr ledled y DU ym mis Mehefin 2019.

Hyd yn oed ym mis Mehefin 2020, ac ar anterth cyfnodau cloi COVID-19, gwelodd y Cinio Mawr Rhithwir 4.1 miliwn o bobl yn ymuno â digwyddiadau Cinio Mawr ar-lein i ddathlu gyda'u cymunedau.

Mae'r digwyddiad blynyddol ledled y DU wedi helpu i greu mwy na 38 miliwn o gysylltiadau, gyda 73% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy balch o ble maent yn byw a bod ganddynt ymdeimlad cryfach o berthyn i'w cymuned.



Stryd Ethel

In 2021 bu **8.97 miliwn o bobl** fynychu digwyddiadau cinio mawr.

Project story

## Dathlu, balchder a pherthyn

Roeddem yn falch o helpu'r genedl i ddathlu Jiwbilî Blatinwm y Frenhines mewn sawl ffordd.

Fel rhan o gyfraniad ehangach y Loteri Genedlaethol o £22 miliwn tuag at y Jiwbilî Blatinwm, dyfarnodd ein Cronfa Jiwbilî Blatinwm £4.5 miliwn o ariannu i 91 o brosiectau cymunedol effeithiol ledled y DU.

I ategu hyn, roedd gennym hefyd ymagwedd grantiau bach, gan ddyfarnu hyd at £10,000 o raglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ar gyfer digwyddiadau a arweinir gan y gymuned trwy gydol 2022 i ddathlu blwyddyn y Jiwbilî Blatinwm.

Yn Lloegr dyfarnodd y rhaglen grantiau bach hon bron i 1000 o grantiau ar wahân, sef cyfanswm atodol o

**£6.1m**

Dangosodd ein hymchwil i ddiweddar gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlathol i'r rhaglenni hyn gefnogi drow **25 miliwn o bobl** i ddathlu'r digwyddiad mawreddog hwn.



Jiwbilî Blatinwm y Frenhines

**Stori prosiect**

## Dathlu, balchder a pherthyn

Ym mis Tachwedd 2019, i ddathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed, gan adeiladu ar ein profiad o ddyfarnu grantiau micro gyda #Dathlu25LoteriGenedlaethol, sicrhaom bod £2 filiwn ar gael i bobl wneud cais am arian, hyd at £1,000, i ddod â phobl ynghyd yn eu cymuned.



Roedd **54%** o ymgeiswyr yn gwneu cais i ni am y tro cyntaf

Rydym hefyd yn cefnogi digwyddiadau untro megis ennill teitl Guinness World Records ar gyfer y parti te hufen mwyaf yn y Sage Gateshead ym mis Hydref 2019, gan groesawu 1,054 o bobl o bob rhan o'r byd.



Parti te hufen mwyaf y byd



# Sut rydym yn dyfarnu grant bach

Women’s Tec

## Gwneud cais

Gall pobl ddefnyddio ein gwefan i anfon eu cais atom.

Mae ein Rhaglen Grantiau Bach Arian i Bawb yn golygu y gallant wneud cais am rhwng £300 a £10,000 i dalu am rai o gostau'r prosiect neu'r cyfan ohonynt. Ni fydd rhaglen Arian i Bawb yn rhoi mwy na £10,000 (mewn un grant neu fwy) i sefydliad mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn.

## Ein Proses

Yn ystod ein hasesiad byddwn yn edrych ar y ffactorau canlynol i'n helpu i ddod i benderfyniad:

- yr angen am y prosiect
- pwy fydd yn buddio
- sut bydd yn cyflawni ei canlyniadau
- os ydym wedi eu hariannu o'r blaen
- incwm y sefydliad
- cyfanswm cost y prosiect.

Ar adegau rydym yn canfod nad oes gennym ddigon o arian i gefnogi'r holl geisiadau yr hoffem. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd.

Mae gennym system sgorio sy'n ein helpu i wneud hyn. Rhoddir mwy o bwyntiau i geisiadau sydd:

- yn dangos tystiolaeth gref o angen
- yn ceisio cynnwys amrediad mor eang â phosibl o bobl
- yn bodloni mwy o'n canlyniadau
- yn ddod o sefydliadau nad sydd wedi derbyn ariannu Arian i Bawb o'r blaen
- yn dod o sefydliadau gydag incwm blynyddol is
- ar gyfer prosiectau llai.

Ein nod yw asesu pob cais yn gyfartal ac yn deg ac mae ein tîm yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod eu hasesiadau. Mae ein rheolwyr yn cymeradwyo'r penderfyniadau terfynol.

## Ein Penderfyniad

Ein nod yw cael penderfyniad o fewn deg wythnos i dderbyn cais cyflawn. Mae angen rhagor o wybodaeth arnom cyn talu'r grant ac rydym wedyn yn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n gywir ac yn unol â'r cais.



# Casgliadau

Rhwydwaith Bwyd Cymunedol Glasgow

# Casgliadau

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn hynod falch o'n hariannu grant bach ac o'r effaith a gaiff ar draws y wlad.

Mae'r symiau bach hyn, boed drwy ffrydiau ariannu arloesol megis Penwythnos Cymunedol y Maer neu o'n cynlluniau grantiau bach traddodiadol, i gyd yn chwarae rhan mewn amgylchedd ariannu llawer ehangach. Rydym yn cefnogi buddsoddiad cymunedol sydd eisoes yn bodoli ac yn ei annog i dyfu lle mae ei angen.

Rydym yn gweithio gyda ac ochr yn ochr â Llywodraeth Genedlaethol, Rhanbarthol a Lleol, arianwyr a busnesau eraill i helpu cymunedau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Mae ein harian yn cyrraedd cymunedau yn uniongyrchol ac yn chwarae rhan bwysig mewn buddsoddiad ehangach mewn ardaloedd ar draws y DU.

Credwn ein bod, trwy ein grantiau bach, yn helpu i adeiladu rhywbeth llawer mwy. Weithiau mae hynny drwy gefnogi sefydliadau i dyfu; weithiau trwy fuddsoddi mewn syniadau sy'n ffynnu. Trwy grantiau bach i gymunedau a'r bobl sy'n byw ynddynt y caiff mentrau cymdeithasol newydd eu geni, y mae grwpiau newydd yn helpu i drawsnewid cymunedau ac y mae arweinwyr lleol newydd yn helpu i ddod â phobl ynghyd.



Cymdeithas Cymuned Affricanaidd Caribïaidd

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw ariannwr cymunedol mwyaf y DU ac mae'n falch o ddyfarnu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Wrth wraidd ein gwaith mae'r gred bod cymunedau'n ffynnu pan fydd pobl yn arwain. Rydym yn gwrando, yn cydweithio ac yn ariannu fel y gallwn gefnogi syniadau gwych sy'n gwneud i bethau da ddigwydd.

## Cysylltwch

**I ddysgu mwy am yr adroddiad hwn neu i siarad â'n Tîm Ymgysylltu:**

**E-bost:** public.affairs@tnlcommunityfund.org.uk

**I ddysgu mwy am ein hariannu a'n hymchwil:**

**Ewch i'n gwefan:** tnlcommunityfund.org.uk
**Ffoniwch ein llinell gymorth:** 0345 4 10 20 30
**Cyfnewid Testun:** 18001 plus 0345 4 10 20 30
**Darllenwch ein hadroddiadau Mewnwelediad :** tnlcommunityfund.org.uk/welsh/insights

Gorffennaf 2022